



Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Rhan IIA Tir wedi'i Halogi

Dan Adran 15 Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001, a wnaethpwyd ar 12 Mehefin 2001 ac a ddaethpwyd i rym ar 1 Gorffennaf 2001 dan **Offeryn Statudol 2001 Rhif 2197 (W.157)**, mae'n rhaid cadw'r Gofrestr Gyhoeddus uchod.

Cedwir y Gofrestr Gyhoeddus gan Adran y Gwasanaethau Rheoleiddio ac mae'n bosibl ei gweld yn Goed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn, LL29 7AZ rhwng 09.00 a 17.00 ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 09.00 a 16.45 ddydd Gwener.

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chynnwys yn y gofrestr (fel y'i disgrifir dan Adran 57 Deddf yr Amgylchedd 1995 ac a nodir yn Adran 78A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990).

Cafodd cofnodion y Gofrestr Gyhoeddus eu diweddarau ar 11/04/25.

Is-adran Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990	Gwybodaeth ofynnol i'w chynnwys yn y gofrestr dan yr is-adran honno	Cofnodion y gofrestr (gyda dogfennau atodedig fel y bo'n berthnasol)
78R(1)a	Hysbysiadau adfer a gyflwynwyd gan yr Awdurdod;	Dim
78R(1)b	Apeliadau yn erbyn hysbysiadau adfer o'r fath;	Dim
78R(1)c	Datganiadau adfer wedi'u paratoi neu'u cyhoeddi;	Berry's Garage Cyf. PCLA 10. NGR SH 84132 80178 28 Gorffennaf 2005 6 Tachwedd 2006 19 Chwefror 2007 5 Mehefin 2008 Pandora Mine Cyf. PCLA 75. NGR SH 76480 59880 28 Mehefin 2007 23 Tachwedd 2007
78R(1)d	Apeliadau yn erbyn hysbysiadau codi tâl a gyflwynwyd gan yr Awdurdod;	Dim
78R(1)e	Hysbysiadau dan is-adran 1(b) neu 5(a) adran 78C (Deddf Diogelu'r	Dim



	Amgylchedd 1990) sy'n cael effaith yn rhinwedd is-adran (7) yr adran honno yn ôl dynodiad unrhyw dir yn safle arbennig;	
78R(1)f	Hysbysiadau dan is-adran 4(b) adran 78D (Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) sy'n cael effaith yn rhinwedd is-adran (6) yr adran honno yn ôl dynodiad unrhyw dir yn safle arbennig;	Dim
78R(1)g	Hysbysiadau a gyflwynwyd gan neu i'r awdurdod gorfodi dan adran 78Q (Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) sy'n terfynu dynodiad unrhyw dir yn safle arbennig;	Dim
78R(1)h	Hysbysiadau a gyflwynwyd i'r awdurdod hwnnw gan bersonau - (i) sydd wedi derbyn hysbysiad adfer, neu (ii) sy'n gorfod, yn rhinwedd adran 78H(8)(a) (Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) paratoi a chyhoeddi datganiad adfer, - sy'n datgan eu bod wedi ymgymryd â gwaith adfer;	Dim
78R(1)j	Hysbysiadau a gyflwynwyd i'r awdurdod hwnnw gan berchnogion neu feddianwyr tir - (i) mewn perthynas â hysbysiad adfer sydd wedi'i gyflwyno, neu (ii) mewn perthynas â datganiad adfer a baratowyd ac a gyflwynwyd, sy'n datgan gwaith adfer sydd wedi'i wneud ar y tir	Dim



	dan sylw;	
78R(1)k	Euogfarnau troseddau dan adran 78M (Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) fel y rhagnodir;	Dim
78R(1)l	Materion eraill sy'n ymwneud â thir wedi'i halogi fel y'u rhagnodir; Mae'r ddyletswydd honno yn amodol ar adrannau 78S a 78T (Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990)	Dim

This document is also available in English.